Senedd Cymru
**Ymgysylltu â dinasyddion**

# Gweithredu Diwygiadau Addysg

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Crynodeb

Ebrill 2023

## Cefndir

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad dros dymor cyfan y Senedd i fonitro'r gwaith o weithredu dau ddiwygiad addysgol yng Nghymru, sef Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Fel rhan o'r ail sesiwn gysylltu â staff sy'n gweithio'n agos gyda'r diwygiadau, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu.

Roedd y Pwyllgor am glywed gan Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Arweinwyr Cwricwlwm a Phenaethiaid.

## Methodoleg

Cynhaliwyd tri grŵp ffocws rhithwir ac un cyfweliad un-i-un. Daeth un cyfraniad ysgrifenedig i law gan gyfranogwr nad oedd yn gallu mynd i'r grŵp ffocws.


Gan ddefnyddio'r canllaw trafod fel fframwaith (gweler Atodiad 1) bu'r hwylusydd yn edrych ar y rhesymeg o amgylch yr hyn yr oedd y cyfranogwyr yn ei ddweud drwy ofyn cwestiynau agored. Casglwyd dyfyniadau gair am air i ychwanegu cyd-destun i'r prif themâu.

## Sampl

Gan ddefnyddio rhestr o ysgolion uwchradd a oedd wedi penderfynu cyflwyno'r cwricwlwm newydd i'w myfyrwyr blwyddyn 7 yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, gwahoddwyd 65 o ysgolion i gymryd rhan. Roedd y cyfranogwyr yn cynnig eu hunain.

## Gwnaeth **20** o ysgolion gymryd rhan a gwnaeth **24** o gyfranogwyr gyfrannu at y sesiwn.

Roedd yr ysgolion wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig (6), maestrefol (7) a threfol (7) ac wedi'u lleoli yn un o'r 13 ardal awdurdod lleol hyn;



Abertawe
Blaenau Gwent
Bro Morgannwg
Caerffili
Conwy
Merthyr Tudful
Pen-y-bont ar Ogwr
Powys
Rhondda Cynon Taf
Sir Benfro
Sir Ddinbych
Sir Fynwy
Sir Gaerfyrddin

## Y canfyddiadau allweddol

Mae'r data a gasglwyd ym mhob grŵp ffocws neu gyfweliad wedi'u dadansoddi a chaiff y canfyddiadau allweddol eu nodi isod. Y themâu allweddol oedd y themâu mwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r data. Caiff y dyfyniadau gair-am-air eu harddangos mewn blychau llwyd.

1. <u>Adnoddau</u>

### Amser

Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r diwrnodau HMS ychwanegol, fodd bynnag, roeddent yn teimlo eu bod yn "annigonol" o gymharu â'r dasg dan sylw, sef diwygio'r cwricwlwm ysgol gyfan.

> *Mae'n rhaid i ni fuddsoddi yn y proffesiwn, o ran recriwtio, ond hefyd o ran yr hyn sydd gennym ni yn yr adeilad hefyd. Rydyn ni'n cipio awr yma ac acw i gael amser go iawn i ffurfio syniadau.*

*Rydym yn falch bod yna un diwrnod HMS ychwanegol, ond dim ond un diwrnod ychwanegol ydyw i gynllunio gwerth blwyddyn gyfan o waith. Nid yw o reidrwydd yn deg.*

*Mae'r diwrnod ychwanegol am dair blynedd, ond mae angen i ni gael mwy yn y dyfodol.*

Mynegwyd pryderon am y dasg adnoddau trwm o drosglwyddo myfyrwyr Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Roedd sawl ysgol y buom yn siarad â nhw naill ai wedi cyflogi rhywun i wneud y Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) neu roedd llawer o ysgolion wedi tynnu'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynydd ADY) i ffwrdd o'u hamser addysgu am yr ychydig fisoedd nesaf er mwy'n cwblhau'r Dyddiad Cau ym mis Gorffennaf.

*Yr enwadur cyffredin gyda'r cwricwlwm a diwygio ADY yw diffyg adnoddau ac amser ac er bod y flwyddyn ychwanegol.... wedi bod yn dda, rwyf wedi gorfod cymryd amser dysgu oddi ar fy Nghydlynydd ADY oherwydd lefel y fiwrocratiaeth a'r cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae'n cymryd mwy o amser i gael yr holl bobl hynny mewn ystafell ac mae'n drwm iawn o ran adnoddau, felly dyna'r peth iawn i'w wneud, ond mae angen inni roi adnoddau priodol a dydw i ddim yn credu bod hynny wedi digwydd. Mae'n costio ffortiwn i mi.*

### Yr Adnoddau Dynol

Mae straen ychwanegol ar adnoddau wedi digwydd oherwydd recriwtio a chadw staff ac Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) heb fawr ddim profiad, os o gwbl, o fod mewn ystafell ddosbarth o ystyried y cyfyngiadau covid yn y gorffennol:

*Ar ôl COVID, rydym wedi cael trafferth gyda recriwtio a chadw staff. Rydyn ni'n rhoi cymaint o hyfforddiant i mewn i lawer o staff nad ydyn nhw'n aros gyda ni oherwydd bod yna swyddi buddiol gwell, sy'n talu mwy, mewn llefydd eraill.*

*Dydyn nhw (ANG) ddim o'r safon roedden nhw'n arfer bod oherwydd nid oes ganddyn nhw'r holl strategaethau hynny rydych chi'n eu dysgu trwy arsylwi pobl eraill a thrwy gael eich arsylwi. Rydym ychydig flynyddoedd ar ei hôl hi o ran ein set sgiliau a nawr nid ydym wedi cael y cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad pellach oherwydd nad oes cyfleoedd, allwn ni ddim rhyddhau pobl i wella'r safonau hynny.*

### Cyllid

Codwyd pryderon ynghylch materion cyllid a thryloywder yn y dyfodol:

*Mae llawer mwy o'r datganiadau sydd i'w trosi, yn sydyn yn dod yn CDUau sy'n cael eu dal yn yr ysgolion yn hytrach na CDUau sy'n cael eu dal yn yr awdurdod ac mae gennyf bryderon ariannu sy'n gysylltiedig â hynny.*

*Os mai'r awdurdodau lleol sy'n rheoli'r CDUau ond nad ydynt yn cadw'r holl wybodaeth, sut y byddan nhw'n cyfrifo faint o arian i'w ddyrannu.*

*Fel pennaeth, rwy'n poeni am y dyfodol o ran sut mae'r model cyllido yn cael ei gyflwyno a beth mae hynny'n ei olygu….does byth digon o arian ar gyfer ADY.*

Mae'r risg o beidio â derbyn cyllid digonol wedi creu nerfusrwydd i ofyn am ormod ar CDUau rhag ofn nad ydynt yn gallu cael y cyllid i gynnig y gofynion hyn, gan adael ysgolion mewn sefyllfa anodd oherwydd na allant hunan-ariannu'r adnodd hwn os yw'r awdurdod lleol o'r farn ei fod yn ddiangen:

*Mae gan adnoddau oblygiadau enfawr i'r hyn rydym yn ei ysgrifennu yn ein CDUau, lle yn y gorffennol byddech yn nodi nifer o oriau cynorthwywyr addysgu rydyn ni'n gorfod symud oddi wrth hynny ac awgrymu "dosbarthiadau gydag oedolion ychwanegol", mae'n rhaid i ni fod yn greadigol fel na fydd rhaid i ni fynd gerbron tirbiwnlys.*

*Rwy'n ymwybodol iawn o sut rwy'n ysgrifennu fy CDUau ac nid ydynt mor benodol ag y byddwn efallai'n hoffi iddynt fod, rhag ofn y bydd staff yn absennol neu fy mod i'n methu recriwtio neu rhag ofn na fydd gennyf ddigon o arian.*

Roedd un ysgol yn credu efallai nad oedd yn cael cyllid penodol oherwydd bod yr awdurdod lleol yn credu eu bod wedi cael digon o adnoddau, yn hytrach nag edrych ar y CDUau fesul achos.

## 2. Cymorth

### Cymorth Cyffredinol

Roedd teimladau cymysg ynghylch cymorth y consortia lleol. Roedd teimlad cyffredin o "rydyn ni'n rhoi'r syniadau iddyn nhw yn hytrach na bod nhw'n ein cefnogi ni ac yn cynnig arweiniad i ni." Roedd rhai wedi derbyn gormod o wybodaeth sydd wedi bod yn gyffredinol ar adegau ac felly nid oedd yn ddefnyddiol a doedd ddim modd uniaethu â nhw ar unwaith.

*Mae'n teimlo fel eu bod nhw'n dod i ofyn i ni beth rydyn ni'n ei wneud a mynd â'r hyn rydyn ni'n ei wneud i ffwrdd gyda nhw yn hytrach na dod i mewn a rhoi arweiniad a chyngor i ni.*

*Roedd yn teimlo ar y dechrau yn gymharol gyffredinol, dim ond rhyw gyfarfodydd i fynd trwy elfennau sylfaenol y cwricwlwm newydd. Ond erbyn*

*hyn maen nhw wedi creu rhywbeth llawer mwy deinamig, llawer mwy ymatebol.*

*Nid yw'r ateb yr ydym yn ei gael yn rhoi gweledigaeth glir iawn inni.*

*Rydyn ni wedi cael gormod gan y consortia rhanbarthol ac mae hynny wedi bod yn eithaf anodd weithiau i ddod o hyd i'ch ffordd drwy hynny.*

*Mae ein Consortia ni wedi darparu gofod meddwl, y cyfle i rannu syniadau, athroniaeth, pwrpas, ac ati ac mae hynny wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol.*

### Hyfforddiant

Roedd rhai yn teimlo bod yr hyfforddiant consortia i alluogi gweithio'n well gyda'r clwstwr yn werthfawr iawn. Fodd bynnag, amlygwyd dro ar ôl tro bod mynediad at hyfforddiant yn broblem ar draws y sector. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo nad oedd wedi'i gynllunio gan ystyried pryd y mae athrawon ar gael a'i fod yn anhygyrch oherwydd diffyg cyflenwi:

*Fe wnaethon nhw gynnal sesiynau dysgu proffesiynol gwerthfawr iawn a chafodd ein staff lawer allan o'r sesiynau hynny. Ond wedyn fe wnaethon nhw gynnal sesiynau yn ystod amser ysgol a doedden ni methu rhyddhau staff oherwydd ein bod yn brin o staff. Felly fe wnaethon nhw ei symud ar ôl ysgol a doedd ein staff methu mynd oherwydd ymrwymiadau teuluol.*

Dywedodd Cydlynwyr ADY fod hyfforddiant naill ai'n cael ei gynnig ar ddechrau'r diwygio ond yn dod i ben ar yr union adeg pan oedd angen cymorth neu nad oedd amser i fynd ar yr hyfforddiant. Ystyriwyd ei bod yn "amhosibl" hyfforddi nifer o Gydlynwyr ADY ar yr un pryd.

*Roedd y cynadleddau cynnar yn dda ac roedd yr arweinwyr yn eu lle, ond yn union wrth iddo gael ei weithredu, cafodd y rôl ei dynnu'n ôl.*

Mae Cydlynwyr ADY yn aelodau o'r uwch dîm arwain mewn ysgolion. Fodd bynnag, roedd yr hyfforddiant a gynigiwyd iddynt yn cael ei ystyried ar lefel arweinyddiaeth ganol.

*Yn gyffredinol, y cynnig gan gonsortia oedd hyfforddiant. Roedd yn teimlo fel DPP, nid oedd yn teimlo'n strategol. Mae disgwyl i ni fod ar lefel SLT, sy'n gam gwych ymlaen i'r proffesiwn ond nid oedd yr hyfforddiant yn cyd-fynd â hynny. Roeddent yn cynnig hyfforddiant arweinyddiaeth ganol pan oedden ni eisoes yn uwch arweinwyr.*

Yn y grŵp ffocws ADY dywedodd cyfranogwyr fod diffyg rhannu arfer gorau neu gymorth gan gymheiriaid wedi arwain at ddiffyg hunanhyder i rai:

*Mae gen i orbryder ac yn poeni llawer, achos dim ond fi sy'n gwneud y swydd hon, ac mae'n ddogfen gyfreithiol y mae'n rhaid i mi ei hysgrifennu.*

*Mae ceisio gweithio drwy'r holl systemau gwahanol hynny yn heriol ac yn rhwystredig. Rydych chi'n teimlo eich bod chi ar roller coaster enfawr oherwydd un funud rydych chi'n meddwl, o ie, dwi'n deall. A'r funud nesaf, rydych chi ar eich pengliniau yn y swyddfa yn meddwl, beth ydw i'n ei wneud?*

*Mae cyfnodau isel wedi bod yn sicr wrth ysgrifennu'r CDUau. Rwy'n teimlo ei bod hi wedi bod yn broses unig iawn. Dydyn ni ddim wedi arfer ysgrifennu CDU chwaith felly mae sicrhau ansawdd yn chwarae ar fy meddwl.*

### Mynediad at wasanaethau

Nid oedd cymorth gan wasanaethau iechyd a'r awdurdod lleol i gwblhau CDUau yn cael ei ystyried yn ddigon amserol. Cafodd gweithwyr iechyd proffesiynol eu disgrifio yn "fud", i'r graddau bod CDUau wedi gorfod cael eu gadael yn wag lle dylai'r gweithwyr proffesiynol hyn gyfrannu:

*Nid oedd unrhyw ohebiaeth gyda'r maes iechyd. Dim ond yn anaml iawn, iawn, iawn y mae'r adran iechyd wedi'i llenwi … Mae cael gweithwyr iechyd proffesiynol i ddod i adolygiadau wedi bod yn her go iawn … mae'r cymorth gan iechyd ar goll.*

*Rydym yn ysgol fawr iawn gydag ystod o anghenion cymhleth iawn, canolfan adnoddau arbenigol a dosbarth lloeren. Does dim unrhyw aelod o'r tîm iechyd wedi bod i hyd yn oed un cyfarfod.*

*Mae CDUau yn cael eu gwthio'n ôl i ysgolion. Does dim llawer iawn o CDUau awdurdodau lleol…mae wir angen cymorth gan weithwyr proffesiynol i helpu i'w symud ymlaen fel y gall pobl ifanc gyrraedd y targedau hynny.*

*Mae wedi cymryd bron i flwyddyn i gael CDU awdurdod lleol gan un cyngor sydd yn gwbl groes i'r canllawiau.*

### Gwaith clwstwr

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo mai rhai o fanteision y cwricwlwm newydd a diwygio ADY yw cysylltiadau cryfach a chymorth o fewn clystyrau;

*Mae ein cyfathrebu clwstwr gymaint yn well drwy'r broses yma.*

*Mae cydweithio a rhannu arfer da, nid yn unig fel clwstwr ond fel cynghrair, wedi bod yn werthfawr iawn wrth i ni gynllunio ein cwricwlwm.*

*Pan ddechreuon ni i gyd ysgrifennu CDUau, doedd neb yn gwybod yn iawn beth oedd CDU da. Doedd neb yn gwybod beth oedd proffil un dudalen da. Felly mae cael y cyfleoedd hynny i sicrhau ansawdd a chymedroli ar draws gwahanol ysgolion ar lefel clwstwr, ond wedyn hefyd ar lefel awdurdod lleol, wedi bod yn ddefnyddiol.*

3. <u>Anghenion Dysgu Ychwanegol</u>

### System a Strwythurau

Disgrifiodd y cyfranogwyr sut mae systemau, strwythurau a chynllun CDU yn “sylfaenol” wahanol ar draws gwahanol awdurdodau lleol gan greu mwy o waith i staff:

*Y rhwystredigaeth fwyaf fu diffyg ymagwedd gyson rhwng awdurdodau lleol, dyw e ddim hyd yn oed yn agos. Mae’n hollol wahanol.*

*Dwi ar gyrion dau gyngor sir felly dwi wedi’i weld o ddau safbwynt, sydd wedi bod yn hynod o anodd a rhwystredig iawn i mi oherwydd bod y prosesau mor wahanol o sir i sir.*

*Dwi’n treulio llawer o fy amser heb fod yn gwbl siŵr a ydw i wedi gwneud pethau'n gywir oherwydd y gwahaniaethau.*

*Pe bai pawb ar yr un system, byddai’n ffordd ymlaen i bob ysgol yng Nghymru.*

Wrth gymharu awdurdodau lleol, roedd yn ymddangos bod setiau gwahanol o feini prawf i wahanol gyfranogwyr eu dilyn wrth benderfynu pwy ddylai fod yn gyfrifol am ysgrifennu a chynnal y CDU, ai’r ysgol neu’r awdurdod lleol? Roedd hyn yn amrywio mewn gwahanol feysydd gan achosi rhwystredigaeth ond gan hefyd greu diffyg ymddiriedaeth i rai o'r awdurdodau lleol.

*Mae gen i ddarpariaeth gofal a gynhelir gan awdurdod lleol ar dir fy ysgol. Mae’n uned ar gyfer plant ag ASD. Roeddwn i dan yr argraff, gan nad oes gennym unrhyw reolaeth o ran pwy sy’n ymuno â’r ddarpariaeth hon, am mai darpariaeth arbenigol awdurdod lleol sydd wedi’i lleoli ar ein safle ydyw, ei bod yn gwneud synnwyr llwyr mai CDUau awdurdodau lleol ydyn nhw. Wnes i ddim cwestiynu hynny ac yna cefais fy nghywiro gan yr awdurdod lleol a ddywedodd, na, mai dim CDUau awdurdodau lleol ydyn nhw ond CDUau ysgolion. Rwy’n ’nabod Cydlynydd ADY mewn sir arall sy'n gweithio mewn lleoliad tebyg ac mae gan bob disgybl CDU awdurdod lleol yno. Mae anghysondeb amlwg ar draws awdurdodau lleol.*

Roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch pam mai awdurdodau lleol sydd â’r gair olaf o ran CDUau a gynhelir gan ysgolion pan mai’r Cydlynwyr ADY yw’r arbenigwyr. Mae wedi achosi gwrthdaro gyda rhai rhieni sy’n disgwyl y byddant yn cael y cymorth y mae’r Cydlynydd ADY yn credu sydd ei angen arnynt:

*Mae gennym ni nifer o blant, a dwi'n meddwl bod angen cefnogaeth un-i-un arnyn nhw…ond dyw'r hyn dwi'n meddwl sydd ei angen arnyn nhw a'r hyn mae'r sir yn ei feddwl ddim bob amser yn cyfateb.*

*Mae ein hawdurdod lleol am i'r ysgolion drosi'r datganiadau yn CDU. Yr anhawster gyda hynny o safbwynt yr ysgol yw os ydw i'n rhoi'r ddarpariaeth yr ydw i'n credu sydd ei hangen ar y plentyn ar y CDU, gall yr awdurdod lleol barhau i droi rownd a dweud na.*

*Dwi'n teimlo bod yna nifer o blant a fyddai'n elwa'n llwyr o gael CDU ac a ddylai gael CDU. Ond mae'r awdurdod lleol yn dweud wrtha i nad oes angen un arnyn nhw. Ac yna mae yna blant eraill nad ydw i'n teimlo bod angen un arnyn nhw oherwydd byddai gwahaniaethu da yn yr ystafell ddosbarth yn diwallu eu hanghenion, ond mae'r awdurdod lleol yn dweud wrthym am greu un. Mae hynny'n rhwystredig dros ben.*

### Dyddiad cau trosglwyddo

Disgrifiodd cyfranogwyr ymestyn y dyddiad cau ar gyfer trosglwyddo myfyrwyr i symud ymlaen i'r system newydd fel un "nad yw'n ddefnyddiol mewn gwirionedd", ac roedd cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn dod i mewn "yn rhy hwyr"

*Nid ydym yn teimlo ei fod wedi helpu ysgolion. Efallai ei fod wedi helpu awdurdodau lleol ond mae wedi amharu dipyn, a does dim llawer o fudd. Mae hefyd yn eithaf dryslyd i ysgolion, i'n clwstwr ac i rieni.*

Roeddent hefyd yn teimlo bod yr oedi wedi achosi tagfeydd gyda'u llwyth gwaith. Roeddent yn tybio bod y bobl a oedd yn gwneud penderfyniadau ac yn rheoli'r amserlenni 'wedi colli golwg' ac yn troi at staff am atebion yn hytrach na rhoi cymorth ac arweiniad iddynt. Roedd y cais i weithio fel hyn yn gwneud i gyfranogwyr deimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi.

*Mae amserlenni yn bendant wedi bod yn broblem, ond hefyd nid yw newid yr amserlenni wedi helpu, oherwydd anfonais y llythyrau trosi i bob un o fy nisgyblion…. nawr dwi'n teimlo rheidrwydd i ddal ati oherwydd mae mor bwysig rheoli disgwyliadau'r rhieni drwy'r amser.*

*Mae'r flwyddyn ychwanegol wedi dod yn rhy hwyr, pe byddem wedi gwybod am hynny fe fyddem wedi bod yn blaenoriaethu ein gwaith yn wahanol.*

*Fe fyddwn ni'n cwrdd â'r dyddiad cau, ond ar ba gost?*

*Does gennym ni ddim amser i eistedd yn gwneud gwaith papur drwy'r dydd bob dydd oherwydd rydyn ni o flaen pobl drwy'r amser ac felly mae'r penderfyniadau'n cael eu gwneud gan bobl nad oes ganddynt y profiad hwnnw o gael 20 o blant yn eistedd y tu allan i'r drws oherwydd bod angen eich cefnogaeth arnyn nhw. Mae hynny'n rhwystredig dros ben.*

### Data

O’r ysgolion y buom yn siarad â nhw, mae'n ymddangos bod nifer y myfyrwyr sydd â CDU neu sydd ag ADY wedi gostwng. Roedd y cyfranogwyr yn priodoli’r gostyngiad hwn yn bennaf i’r ffordd y mae’r system newydd yn casglu data:

> *Mae tua 50% o’n disgyblion yn aros ar y system ADY newydd ac mae ein disgyblion eraill o fewn y gofrestr wedi’i thargedu. A'r anhawster yw nad yw hyn yn adlewyrchu ein hysgol ni…Allwn ni ddim adrodd yn arbennig o dda ar y disgyblion hynny a dargedir.*
>
> *O ran nifer y bobl ifanc ag ADY rwy'n meddwl ein bod ni'n parhau i fod yn debyg, ond nid yw'r ffordd yr ydym yn adrodd yn adlewyrchu hynny. Felly mae gennym ni bobl ifanc sydd â CDU, ond mae gennym ni bobl ifanc sy'n cael ymyriadau wedi'u targedu, ond ni fydd hynny'n cael ei adlewyrchu oherwydd efallai nad oes ganddyn nhw CDU o reidrwydd, ond mae ganddyn nhw lefel o angen.*
>
> *Roedd gennym ni'r data ac roedd hi'n edrych fel bod canran y plant ADY yn isel iawn, iawn. Ond pan edrychwch chi ar lefel yr angen ar draws yr ysgol, mae'n anhygoel o uchel, yn llawer uwch nag y bu erioed.*
>
> *Cyn y diwygio, roedd tua 330+ o fyfyrwyr ar y gofrestr Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, gan gynnwys datganiadau, a nawr dim ond 86 sydd.*
>
> *Rydyn ni’n drafftio proffil un dudalen gyda thargedau ac yna mae matrics y mae'r awdurdod lleol yn ei redeg drwyddo i weld a yw'r disgybl yn cyrraedd y targedau. Mae hynny'n oeraidd iawn yn fy marn i. Mae’n system sy’n dweud a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer CDU. Ac roedd gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sydd angen CDU.*

### Cyfathrebu

Nid yw cymorth i’r plant a’r bobl ifanc nad oes ganddynt CDU yn cael ei gyfleu cystal yn y system newydd. Mae hyn yn achosi problemau wrth i Gydlynwyr ADY sicrhau bod y myfyrwyr hynny y mae angen cymorth ystafell ddosbarth arnynt yn cael popeth sydd ei angen arnynt:

> *Nid yw'n ymddangos bod yna ymateb graddedig bellach. Rydych chi naill ai ar y rhestr neu ddim.*
>
> *Mae ein canrannau ADY wedi gostwng yn eithaf sylweddol, ond rwy'n bryderus iawn am y plant nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer CDU. Mae angen i staff fod yn ymwybodol o'u hanghenion ac mae angen i ni wneud gwahaniaeth ac addasiadau yn yr ystafell ddosbarth. Fel ysgol, rydyn ni wedi*

*penderfynu creu'r band ychwanegol yma o blant sydd angen y gefnogaeth ychwanegol yna.*

Disgrifiodd y cyfranogwyr sut mae cynllun i addysgu rhieni a sefydliadau'n ehangach yn rhan annatod o'r dyfodol wrth i "lynu wrth y term "datganiad"".

*Mae angen inni addysgu system ehangach o bobl. Mae gwasanaethau eiriolaeth yn cynnwys pobl wych, ac mae'r gwasanaethau yn wych, ond mae yna wybodaeth anghywir ar gael.*

Roeddent yn teimlo bod risg gyda system ddiwygio a phobl nad ydynt yn deall y system newydd, y bydd sefydliadau annibynadwy yn cynnig cymorth i deuluoedd na fydd efallai ei angen arnynt i gael eu hawliau.

*Mae gennych chi rieni sy'n mynd at bobl breifat ac yn talu pobl. Mae siarcod allan yna sy'n chwilio am gyfleoedd ac a allai wneud pethau'n anodd iawn i rieni.*

Roedd hyn hefyd yn wir am ysgolion yn cael eu targedu gan sefydliadau sy'n cynnig systemau drud i ysgolion nad ydynt efallai'n ddefnyddiol wrth eu paratoi ar gyfer y diwygio hwn.

*O fewn agwedd dylunio cwricwlwm RNR, cafodd twll mawr ei adael a bydd eraill yn ceisio ei lenwi. Mae yna fusnesau bach o gartref sy'n ceisio gwneud hynny ac rwy'n meddwl bod hynny'n peryglu ysgolion, gweithwyr proffesiynol, rhieni, disgyblion i rywbeth a allai mewn gwirionedd danseilio'r egwyddor lawn y tu ôl i'r cwricwlwm newydd hwn...dyna sy'n achosi nosweithiau digwsg.*

4. <u>Asesiadau</u>

Cytunodd yr holl gyfranogwyr eu bod yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i nodi a yw'r strwythurau asesu y maent wedi dechrau eu hymgorffori yn mynd i fod yn effeithiol. Mae mwyafrif y cyfranogwyr yn teimlo'n aneglur a ydynt yn mynd i'r cyfeiriad cywir gyda strategaethau asesu effeithiol gan nad ydynt wedi derbyn fawr ddim cyfeiriad gan y consortia, Estyn na chyrff cefnogol eraill.

Fe wnaethant ddisgrifio teimlo'n "anesmwyth" a bod angen "cael ffydd" yn eu penderfyniadau. Roeddent yn teimlo, oherwydd y diffyg arweiniad ar gyfer asesiadau, fod hyn yn ei gwneud yn "amhosib canfod" y lefelau ar gyfer eu dysgwyr.

*"Asesu" yw'r gair sy'n codi ofn ar bob athro.*

*Yn y bôn, rydyn ni wedi cael ein gadael i weithio popeth allan ein hunain.*

*Mae'r asesu, y cofnodi a'r adrodd, yn fy marn i, yn creu tipyn o fwlch yn y cwricwlwm.*

*Mae natur oddrychol y camau cynnydd yn fwy o rwystr na chymorth.*

*Mae gennym ni system asesu yn ei lle ac rydyn ni'n eithaf hapus gyda ni ein hunain ac yn meddwl ei bod yn gweithio i ni... Mae'n debyg mai'r broblem sydd gennym ni yw nad oes gennym ni unrhyw syniad a yw'n gywir neu'n anghywir.*

5. <u>Anghydraddoldeb ym maes addysg</u>

Roedd sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr sy’n gweithio yn y sector ADY yn dangos y posibilrwydd o anghydraddoldeb ym maes addysg, a allai danseilio hanfodion y diwygiadau. Nid oes unrhyw anghysondeb ar gyfer disgyblion ADY ar y cyrion ac “nid yw’r system wedi’i chynllunio ar eu cyfer”, gallai hyn arwain at anghydraddoldeb ym maes addysg yn y dyfodol.

Disgrifiwyd rhai dysgwyr sydd angen athrawon CDU gan ddweud “allwn ni ddim hyd yn oed cael y disgybl i mewn i'r ysgol. Rydyn ni wedi trïo popeth”

*Mae'r cais am leoliad arbenigol yn ein hawdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i blentyn gael CDU ac mae hyn yn her arbennig pan fo gennych chi ddisgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol. Mae gennym ni rai disgyblion yr ydym ni wedi bod yn trïo eu cael yn ôl ers COVID ond nid yn llwyddiannus. Mae bron yn fy annog i ysgrifennu CDU amwys iawn dim ond i fynd drwy'r broses. Mae’n teimlo'n anghyfforddus oherwydd nid dyna hanfod y system.*

*Mae'n rhaid i ni gael CDU i wneud cais am unrhyw ddarpariaeth arbenigol. Ac rydw i wedi gweld fy hun yn ysgrifennu CDUau ar gyfer rhai disgyblion dwi ond wedi cyfarfod erioed dros Teams...Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i mi ysgrifennu'r ddogfen gyfreithiol rwymol hon ar gyfer disgybl nad ydw i erioed wedi cwrdd ag ef yn bersonol.*

*Mewn rhai achosion, mae wedi achosi inni symud i ffwrdd o fod yn ganolfan disgyblion i fod yn ymarfer biwrocrataidd yn unig. Mae mor bell oddi wrth syniad y ddeddfwriaeth newydd.*

Hefyd, codwyd pryderon ynghylch sut mae’r system yn ymddangos yn fwy llwyddiannus i’r rhai sy’n eithaf addysgedig a ddim mor deg ar y myfyrwyr hynny sydd â rhieni sydd efallai ag anawsterau dysgu eu hunain ac sydd angen cymorth ychwanegol cymaint â’u plant.

6. <u>Staff newydd a ffocws ysgol</u>

Dywedodd llawer o ysgolion eu bod wedi bod yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm ers blynyddoedd gan ddisgrifio’r broses fel “esblygiad nid chwyldro.”

Roedd pob un o’r cyfranogwyr yn rhannu’r farn eu bod nhw a’u cydweithwyr yn falch o fod yn dechrau ar y diwygio hwn sy’n canolbwyntio ar y disgybl:

*Mae wedi bod yn heriol, ond yn wych. Roedd llawer o fuddiannau ar hyd y ffordd.*

*Mae'r newid yn anferthol. Ond dyma'r peth iawn i'w wneud oherwydd mae'n sicrhau bod y disgyblion yn ganolog.*

*Roedd cael y cyfle a'r hyblygrwydd i ddatblygu cwricwlwm sy'n gwasanaethu anghenion ein pobl ifanc yn gyfrifoldeb enfawr ond yn hynod gyffrous.*

Mae'r broses wedi eu galluogi i greu gweledigaeth ysgol sydd wedi'i chreu gyda chyfraniad lleol ac sy'n cryfhau cysylltiadau ag ysgolion eraill i alluogi rhannu syniadau'n dda a ffocws newydd i staff:

*Mae'r cwricwlwm newydd hwn yn wirioneddol annog pob ysgol i fod yn glir iawn, iawn ynghylch pam eich bod chi'n gwneud yr hyn rydych chi'n ei wneud ar gyfer y disgyblion o'ch blaen.*

## Atodiad 1

| Y Cwestiynau Mawr: | Cwestiynau Manwl: |
|---|---|
| Y Cwricwlwm Newydd | |
| Sut mae'r broses o weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru wedi mynd i'ch ysgol hyd yn hyn, ers mis Medi 2022? | • Esboniwch y manteision a'r heriau o'r broses o **gynllunio** cwricwlwm yr ysgol ei hun (yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol a ddarperir)<br>• Esboniwch y manteision a'r heriau o'r broses o **weithredu** cwricwlwm yr ysgol ymhlith disgyblion Blwyddyn 7<br>• Nodwch a oedd unrhyw agweddau ar y cwricwlwm newydd a fu'n arbennig o anodd neu heriol i'ch ysgol, er enghraifft Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; a'r Gymraeg. |
| Pa gymorth a gawsoch gan yr awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol? | • Beth oedd natur y cymorth hwn a beth oedd wedi'i gynnwys fel rhan ohono (e.e. dysgu a hyfforddiant proffesiynol?)<br>• A oedd hyn yn ddefnyddiol ac a gawsoch ddigon o gymorth?<br>• I ba raddau ydych chi'n teimlo bod dull cyffredin wedi cael ei fabwysiadu yn yr ardal leol, er enghraifft a yw eich ysgol wedi gweithio gydag ysgolion eraill gerllaw a pha mor debyg yw eich cwricwlwm chi i gwricwlwm ysgolion eraill yn eich barn chi? |

| | |
|---|---|
| **I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y cwricwlwm newydd yn cyfrannu at amcanion cenedlaethol a strategol?** | • A yw'r cwricwlwm newydd yn helpu neu'n rhwystro'r ysgol rhag gwella safonau? Os felly, esboniwch sut mae'n cyflawni hyn? Ac, os nad ydyw, esboniwch beth rydych chi'n meddwl y gellid ei wneud i wella'r sefyllfa.<br>• A yw'n helpu i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad (er enghraifft rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion, rhwng disgyblion ag AAA/ADY a'u cyfoedion, a rhwng Plant sy'n Derbyn Gofal a'u cyfoedion)?<br>• Pa mor hyderus ydych chi y gallwch asesu disgyblion o dan y cwricwlwm newydd i Gymru? Er enghraifft, ydych chi'n credu bod y ffordd y dylai ddisgyblion wneud cynnydd a sut y dylid asesu'r cynnydd hwn yn ddigon clir? |
| Diwygiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol | |
| **Sut mae'r ddwy flynedd gyntaf o weithredu'r system ADY newydd a throsglwyddo disgyblion o'r system AAA wedi mynd i'ch ysgol chi?** | |
| Yn fras, pa gyfran o'r disgyblion ar Weithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ydych chi wedi eu symud i'r system newydd o fewn y grwpiau blwyddyn gorfodol ar gyfer 2021/22 a 2022/23? | • A ydych yn meddwl y byddwch yn cyrraedd y terfyn amser ym mis Gorffennaf 2023 ar gyfer trosglwyddo disgyblion yn y grwpiau blwyddyn gorfodol i'r system newydd? |
| A ydych yn croesawu'r flwyddyn ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru bellach yn ei chaniatáu ar gyfer trosglwyddo'r ail gyfran o ddysgwyr (yr ail gyfran o grwpiau blwyddyn gorfodol) o'r system AAA bresennol i'r system ADY? | • I ba raddau y mae angen hyn? |
| Mewn cymhariaeth, a ydych wedi canfod bod trosglwyddo **disgyblion â** datganiadau yn anoddach neu'n llai anodd neu gymhleth o'i gymharu â throsglwyddo **disgyblion ar Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy**? | • A oes gennych unrhyw awgrymiadau i helpu i wella'r dasg hon?<br>• A ydych wedi cael unrhyw anhawster i sicrhau gwasanaethau arbenigol a/neu ymyriadau ar gyfer eich disgyblion pan yr oedd arnynt eu hangen, er enghraifft gwasanaethau iechyd? |

| | |
|---|---|
| Wrth gymhwyso'r diffiniad o ADY: | Wrth gymhwyso'r diffiniad o ADY:<br>• ·A yw pob un o'r disgyblion yn eich ysgol chi oedd ag AAA o dan y system flaenorol y bernir fod ganddynt ADY ac sy'n cael CDU, yn eu lle yn y grwpiau blwyddyn sydd wedi symud i'r system newydd?<br>• A ydych yn cymhwyso'r diffiniad o ADY yn yr un modd â'r diffiniad blaenorol o AAA?<br>• Sut mae niferoedd y disgyblion sydd gennych ag ADY ac AAA yn cymharu â'r blynyddoedd diwethaf?<br>• A ydyn nhw wedi codi neu ddisgyn?<br>• A yw problemau o ran adnoddau yn cael unrhyw ddylanwad ar y penderfyniadau a wnewch ynghylch a oes gan ddisgyblion ADY ac a ydynt yn gymwys i gael CDU?<br>• A yw dull y cwricwlwm newydd yn ffactor o ran sut yr ydych yn penderfynu a oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar ddisgyblion? |
| Pa gymorth a gawsoch gan yr awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol? | • Beth oedd natur y cymorth hwn a beth oedd wedi'i gynnwys fel rhan ohono (e.e. dysgu a hyfforddiant proffesiynol?)<br>• A oedd hyn yn ddefnyddiol ac a gawsoch ddigon o gymorth?<br>• Pa gymorth a gawsoch gan yr arweinwyr gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol? |